

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod [zoom] a gynhaliwyd ar yr 2ail Awst 2021

Presennol– Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones,, Neil Pringle, Mari E M Mathews, Janet Charlton, Catherine Williams, Cyng Elisabeth Roberts Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau – Mari E M Mathews

Datgan diddordeb, Dim datganiad.

Aelod Newydd – Croesawodd y Cadeirydd Ms Beth Thomas yn aelod cyfethol o'r Cyngor Cymuned.

Cofnodion – Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 8fed Fehefin 2021

Materion yn codi

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol. Dywedodd y clercc iddo dderbyn y diweddariad canlynol;

[a] Neidio l'r afon o Bont-y-Pair

[b] Ymddwyn gwrth gymdeithasol ar y bont

[c] Ymosodiad anweddus

[d] Ymddwyn afreolus gan bobl ieuanc

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair

Nodwyd bydd y Cadeirydd a'r clercc yn cwrdd â swyddog o Cadw gan fod y bont yn adeilad wedi ei rhestru ac yn hanesyddol o bwysig.

[1.2] Pont –y-Mwynwyr

Dywedodd y clercc fod Cyngor BS Conwy yn cynghori y byddai y bont newydd yn ei lle erbyn Hydref 2021 efallai.

[1.3] Cyngor BS Conwy Gwasanaethau Cynaliadwy

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.4] Camerâu Cylch Agos Pentre' Du

Eglurodd y clercc fod swyddog CCA yn paratoi costau i'w hystyried gan y Cyngor Cymuned

[1.5] Siop Climber a Rambler

Dywedodd y Cyng E Roberts nad oedd ateb wedi ei dderbyn gan y Parc Cenedlaethol na hefyd Cyngor BS Conwy ynglŷn â'r mater.

[1.6] Atgyweirio'r Neuadd Goffa

Eglurodd y Cadeirydd, yn dilyn cyfarfod arbennig o zoom a gynhaliwyd ar y 22ain Fehefin. Penderfynwyd gan ystyried oed a maint yr adeilad nad oedd y Cyngor Cymuned yn barod i gytuno i les atgyweirio llawn a fuasai'n rhwymo'r Cyngor i gostau sylweddol a rheolaidd. Yn dilyn penderfyniad y Cyngor, nid oedd awgrym pellach wedi ei dderbyn gan y Cyngor Sir

[1.7] Gwasanaeth Sgip

Nodwyd y byddai gwasanaeth sgip ar gael ar y triongl gwair ym Mhentre' Du ar y 17eg Awst a hefyd ar y 15fed Fedi rhwng 9.00 y bore a 3.00 y prynhawn efallai wedi gadael yn gynt os yn llawn. Y clerch i wneud ymholiad ynglŷn ail sefydlu gwasanaeth ar ddydd Sadwrn.

[1.8] Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy

Esboniodd y Cadeirydd y cefndir ynglŷn â chynllun tai cymdeithasol a thai canolradd yn enwedig y gost ayb. Penderfynwyd mai cynllun tai cymdeithasol fyddai orau gyda pholisi preswyl lleol.

[1.9] Caffi 'r Rheilffordd Fach

Dywedodd y clerch nad oedd gair pellach wedi ei dderbyn gan Bethan Lloyd swyddog iechyd yr amgylchedd y Cyngor Sir ynglŷn â chyflwr y cerbydau cludiant. Nodwyd hefyd bod e-bost pellach wedi ei anfon ar y 17eg Orffennaf ond nad oedd ateb wedi ei dderbyn.

[2] Materion Parcio Bro Gethin

Penderfynwyd anfon at Andrew Bowden yn gwneud ymholiad tybed a oedd Cartrefi Conwy yn barod i ail ystyried cynnig y Cyngor Cymuned i wneud cyfraniad tuag at greu maes parcio, neu oes cynnig arall gan y Gymdeithas Tai.

[2.1] Arwyddion Lleol

Dywedodd y clerch bod y Parc Cenedlaethol yn bwriadu trefnu arwyddion newydd yn y pentre'. Fel rhan o'r gwaith mae bwriad i osod giât newydd yng nghwaelod Cae Llan, mae'r gwaith yn amodol i ganiatâd cynllunio.

Y Brif Agenda

[2.2] Materion Cynllunio

[a] Trawsnewid a chreu estyniad ar gyfer llety gwyliau hunan gynaliadwy. Adeiladau allanol Craig Glanconwy Betws-y-Coed.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod

[b] Adeiladu 5 tŷ fforddiadwy dau lawr. Tir yng nghefn y feddygfa Pentre' Du, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd cefnogi'r cais uchod yn amodol i drefniant o bolisi lleol ar gyfer gosod y tai

[2.3] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau a'r derbyniadau a amlinellwyd gan y clerch ar gyfer y cyfnod 1af hyd i 31ain Orffennaf 2021

[b] Dywedodd y clerch fod ffigyrau mynediad i'r rhoadr yn gwella yn dilyn y cyfnod caeedig o ganlyniad cofid.

[c] Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol . Nodwyd nad oedd unrhyw fater wedi ei godi yn yr adroddiad. Penderfynwyd cymeradwyo adroddiad a'i gyflwyno i'r Archwiliwr Allanol.

[2.4] Meinciau/ Cae Llan

Y clerch i drafod cyflwr y meinciau gyda Geraint Thomas i benderfynu oedd pwrpas eu trwsio.

[2.5] Ymddwyn Gwrthgymdeithasol Pont-y-Pair

Penderfynwyd anfon at yr heddlu yn datgan fod y Cyngor Cymuned yn siomedig fod y rhybudd gorfodaeth gan Gyngor BS Conwy wedi dod i ben, ac nad oes unrhyw beth i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol pan mae fwyaf ei angen.

[2.6] APCE Plannu Coed

Cytunodd y Cyng Elisabeth Roberts gysylltu gyda'r ysgol i wneud ymholiad ynglŷn â phlannu coed yn y cae chwarae. Y clerch i gysylltu gyda'r Parc I ymholi pa fath o goed sydd ar gael.

[2.7] Cwr y Cyrau

Deallwyd efallai bod trafferthion ynglŷn â pherchnogaeth tir. Y clerch i gysylltu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

[2.8] Gŵyl Flodau Eglwys Sant Mihangel

Cytunodd y Cyng Janet Charlton I drefnu blodau ar ran y Cyngor Cymuned.

[2.9] Llysdyfiant Pont-y-Pair

Y clerch i atgoffa Cyngor BS Conwy ynglŷn â'r tyfiant ar waliau'r bont.

[3] Goleuo Glan yr Afon/ Pont-y-Pair

Nodwyd amcan bris o £15,000 ar gyfer gosod goleuadau. Y clerch i wneud ymholiadau ynglŷn â chaniatâd cynllunio.

Gareth Wynne, Cadeirydd